TELERAU AC AMODAU CYFLOGAETH

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Mae'r paragraffau a ganlyn yn crynhoi'r prif delerau ac amodau cyflogaeth fel y maent hwy ar hyn o bryd.

Amgaeir disgrifiad swydd sy'n crynhoi prif bwrpas y swydd a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r swydd ynghyd â'r prif ddyletswyddau.

Caiff disgrifiadau swydd eu diwygio bob blwyddyn fel rhan o broses Rheoli Perfformiad ac Datblygiad CCAUC.

MAN GWAITH

Bydd y Cytundeb Cyflogaeth yn cadarnhau'r man gwaith.

ORIAU PRESENOLDEB

Yr oriau Amser-llawn yw 37 awr yr wythnos, Dydd Llun i Ddydd Gwener, heb gynnwys amser a gymerir ar gyfer cinio, te, coffi, smygu ac ati. Bydd yr oriau Rhan-amser mewn cyfrannedd â hyn. Bydd CCAUC yn ystyried trefniant oriau gwaith hyblyg.

CYFLOG A THALU CYFLOGAU

Telir cyflogau yn fisol, fis ar ei hôl hi, drwy drosglwyddiad credyd i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a all dderbyn trosglwyddiadau electronig o'n system cyfrifo ariannol.

GORAMSER

Gall staff gweinyddol fod yn gymwys ar gyfer taliadau goramser.

TEITHIO A CHYNHALIAETH

Bydd CCAUC yn ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth gwirioneddol ac angenrheidiol staff sy'n gwneud teithiau ar fusnes y Cyngor. Mae gwybodaeth pellach ar gael yn y Polisi Teithio a Chynhaliaeth.

GWYLIAU

Mae gan staff CCAUC hawl i 28 diwrnod o wyliau blynyddol gyda thâl. Rhaid cymryd 3 o'r rhain yn ystod cyfnod y Nadolig/Blwyddyn Newydd pan fydd y swyddfa ar gau, fel y pennir gan CCAUC. Mae gan y staff hawl i 8 o Wyliau Cyhoeddus y flwyddyn gyda thâl. Mae hawl gwyliau staff rhan-amser mewn cyfrannedd â hawl gwyliau staff amser-llawn.

Hefyd, ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth cydnabyddedig, ychwanegir 2 diwrnod o wyliau Gwasanaeth Hir gyda thâl ac ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth cydnabyddedig, ychwanegir 5 diwrnod o wyliau Gwasanaeth Hir gyda thâl.

ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH

Yn ystod y 3 mis cyntaf yn y swydd, telir tâl salwch statudol yn unig am unrhyw gyfnod o absenoldeb oherwydd salwch. Wedi cwblhau 3 mis o wasanaeth, telir cyflog am 2 fis ar y mwyaf yn ystod absenoldeb oherwydd salwch. Telir y cyflog misol arferol am y mis cyntaf o absenoldeb. Am unrhyw absenoldeb wedi hynny telir hanner y cyflog misol arferol.

Ar ôl cwblhau 12 mis o wasanaeth bydd gan staff hawl i 12 mis o dâl ar y mwyaf o fewn unrhyw gyfnod o 4 blynedd. Telir y cyflog misol arferol am y 6 mis cyntaf o absenoldeb. Am unrhyw absenoldeb wedi hynny telir hanner y cyflog misol arferol hyd at uchafswm o 12 mis.

Byddai unrhyw Dâl Salwch Statudol sy'n ddyledus yn cael ei dalu fel rhan o'r cyflog llawn. Bydd budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol y gall staff eu hawlio yn cael eu hymgorffori o fewn y cyflog llawn. Yn achos staff rhan-amser, bydd yr hawliau hyn mewn cyfrannedd â'r oriau a weithiant.

TREFNIADAU PENSIWN

Gellir ymuno â chynllun pensiwn o'r cychwyn cyntaf. Y mae dewis rhwng dau drefniant pensiwn:

- Aelodaeth o Brif Gynllun **nuvos** y Gwasanaeth Sifil, mae hwn yn cynllun pensiwn galwedigaethol gyda 3.5% cyfradd aelod. Fel eich cyflogwr rydym yn cyfwrdd a gweddyll y cost o'r cynllun.

neu

- Aelodaeth o **gyfrif pensiwn partneriaeth**, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr sy'n seiliedig ar oedran. Nid yw'r cyfraniadau yn orfodol, ond os telir hwy, bydd y cyflogwr hefyd yn gwneud cyfraniad hyd at 3% o gyflog pensiynadwy.

YMDDEOL

Yr oedran ymddeol arferol yw 65, ond gall staff barhau yn eu swyddi ar ôl yr oedran hwn os yw CCAUC yn cytuno.

CYDGYTUNDEBAU

Mae cydgytundeb gyda'r Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) yn effeithio'n uniongyrchol ar y telerau ac amodau cyflogaeth.